


# Gwella gwybodaeth band eang ar gyfer cwsmeriaid

Canllawiau newydd i wella dealltwriaeth  
defnyddwyr o'r dechnoleg a ddefnyddir i  
ddarparu gwasanaethau band eang

**Datganiad**

Cyhoeddwyd 13 Rhagfyr 2023



# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg .....	3
-------------------	---

# 1. Trosolwg

- 1.1 Mae'r ffordd y darperir gwasanaethau band eang sefydlog yn newid, gyda'r darpariaeth rhwydweithiau ffeibr newydd yn cynyddu ar draws y DU ac yn cydfodoli ochr yn ochr â rhwydweithiau hŷn. Mae bron i 22.4 miliwn o gartrefi (75% o holl gartrefi'r DU) bellach yn gallu derbyn band eang gigabit-alluog, tra bod darpariaeth ffeibr i'r adeilad, ar gyfer y DU gyfan, wedi cynyddu i 52%.<sup>1</sup>
- 1.2 Un o'n blaenoriaethau yw gwneud yn siŵr bod defnyddwyr yn cael eu trin yn deg, ac mae hynny'n cynnwys sicrhau eu bod yn cael eu grymuso i wneud y dewisiadau sy'n iawn iddyn nhw. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'n arbennig o bwysig bod defnyddwyr yn derbyn gwybodaeth ddigonol a defnyddiol i ddewis eu gwasanaeth band eang.
- 1.3 Fodd bynnag, gall cwsmeriaid weld bod y farchnad band eang yn gymhleth ac yn anodd ei deall. Yn ein barn ni, mae hyn, yn rhannol, o ganlyniad i'r iaith a allai fod yn ddryslyd ac yn anghyson a ddefnyddir i ddisgrifio'r technolegau rhwydwaith y darperir gwasanaethau band eang drostynt. Yn benodol, defnyddiwyd y term 'ffeibr' yn anghyson i gyfeirio at rwydweithiau newydd a hŷn.
- 1.4 Ym mis Mawrth, bu i ni ymgynghori ar gynigion i wella'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr, i rymuso pobl i wneud penderfyniadau gwybodus am eu pryniannau band eang. Gwnaethom hefyd gyhoeddi ymchwil a nododd, wrth ddewis gwasanaeth band eang, y byddai rhai pobl yn ei gweld hi'n ddefnyddiol derbyn gwybodaeth am y dechnoleg sylfaenol a ddefnyddir i ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r datganiad hwn yn nodi ein penderfyniadau i helpu cwsmeriaid i wneud dewisiadau mwy gwybodus. Rydym am gefnogi defnyddwyr i ddeall nodweddion eu gwasanaeth band eang yn well fel eu bod yn gwybod beth maent yn ei brynu, a'u bod yn gallu cymharu gwasanaethau'n haws i ddewis y gwasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion orau.

## Ein penderfyniad – yn gryno

Rydym wedi penderfynu cyhoeddi'r canllawiau canlynol o dan Amodau Cyffredinol C1 ac C2. Yn gryno:

- dylai darparwyr roi disgrifiad byr o dechnoleg sylfaenol pob cynnyrch band eang a gynigir ar y pwynt gwerthu ar y wefan, yn yr Wybodaeth Gontract ac yn y Crynodeb o'r Contract, gan ddefnyddio un neu ddau derm sy'n glir ac yn ddiamwys, megis 'cebl', 'ffeibr llawn', 'copr' neu 'ffeibr rhannol';
- mae'r defnydd o'r gair 'ffeibr' ar ei ben ei hun i ddisgrifio'r dechnoleg sylfaenol yn amwys, ac felly ni ddylid ei ddefnyddio i ddisgrifio'r dechnoleg sylfaenol; a,
- dylai darparwyr roi esboniad manylach o'r dechnoleg sylfaenol (er enghraifft trwy ddolen) er mwyn i ddefnyddwyr ddeall drostynt eu hunain beth mae'n ei olygu iddyn nhw. Dylid hefyd ei roi ar ffurf sy'n hygyrch ac yn hawdd ei deall.

Dylid rhoi gwybodaeth am dechnoleg sylfaenol i ddefnyddwyr ni waeth sut y maent yn cofrestru ar gyfer gwasanaeth. O dan ein canllawiau newydd, bydd y rhai sy'n cofrestru ar-lein yn derbyn yr wybodaeth hon ar wefan y darparwr band eang. Bydd y rhai sy'n prynu gwasanaeth dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn derbyn yr wybodaeth hon yn y Crynodeb o'r

<sup>1</sup> Ofcom, Medi 2023. [Cysylltu'r Gwledydd 2023: Diweddariad haf](#), tudalen 3.

Contract ac yn y contract ei hun. Rhaid darparu Crynodeb o'r Contract gyda gwybodaeth allweddol am y gwasanaeth cyn i'r cwsmer gadarnhau'r pryniant.

Rydym wedi dod i'r casgliad mai dyma'r dull mwyaf cymesur o sicrhau bod gwybodaeth briodol yn cael ei darparu i ddefnyddwyr ac o leihau dryswch cwsmeriaid, tra'n cyfyngu ar gostau gweithredu.

Rydym wedi penderfynu rhoi naw mis i ddarparwyr band eang roi'r newidiadau hyn ar waith. Bydd y canllawiau felly yn berthnasol o **16 Medi 2024**.